**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

03 Tachwedd 2020

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref ynghylch Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020.

O ran y ddau bwynt sydd gennych mewn perthynas ag amseriad gosod y rheoliadau, fel y dywedwch yn eich llythyr, mae galw sylweddol iawn ar adnoddau Llywodraeth Cymru oherwydd y coronafeirws, Brexit a'r pwysigrwydd sy'n cael ei roi ar orffen y rhaglen ddeddfwriaethol ddiwygiedig. Unwaith iddi ddod yn amlwg y byddai hyn yn golygu na ellid gosod y rheoliadau mewn modd amserol, fel sy'n digwydd fel arfer, fe soniais yn glir, mewn datganiad yn y Senedd am gwmpas y rheoliadau yr oeddem yn bwriadu eu gwneud cyn diwedd Medi. Roedd yr wybodaeth honno hefyd wedi cael ei chyflwyno'n uniongyrchol i landlordiaid gan Rhentu Doeth Cymru ar ôl y datganiad.

Mewn perthynas â'ch cais am resymau llawn dros safbwynt Llywodraeth Cymru bod y Rheoliadau yn cydymffurfio ag Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, nid oes gennym ragor i'w ychwanegu at y datganiad a wnaed eisoes. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i deimlo'n fodlon bod y Rheoliadau yn gydnaws â'r Confensiwn, ac fe hoffwn eich cyfeirio at y rhesymeg dros y newidiadau sydd wedi ei nodi yn adran diben ac effaith y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government